S4C

# Bwrdd S4C
# **Rheolau Sefydlog**

Cymeradwywyd: Mawrth 2025 (Adolygwyd: Mawrth 2025; Adolygiad nesaf: Mawrth 2029)

*Darperir cyfieithiad Saesneg o Reolau Sefydlog Bwrdd S4C, er gwybodaeth. Pe bai anghysondeb rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o ddogfennau S4C, gan gynnwys y Rheolau Sefydlog hyn, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael blaenoriaeth.*

*Mae'r Rheolau hyn yn ategu'r Deddfau ac ni fwriedir iddynt eu disodli na chyfyngu neu amharu arnynt.*

*Mae Rheol Sefydlog 13 yn darparu diffiniadau a dehongliadau ar gyfer y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.*

## Cyflwyniad

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth teledu cyhoeddus a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg, i'r gynulleidfa yng Nghymru yn bennaf, ond hefyd ar gyfer y gynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaeth Cymraeg S4C.

Mae S4C yn gorfforaeth statudol ac mae'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol yn ymwneud â strwythur, llywodraethiant a chyfrifoldebau S4C wedi'u pennu mewn deddfwriaeth.

Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn rhoi trefniadau llywodraethiant corfforaethol manwl ar waith ac nid ydynt yn disodli nac yn newid y darpariaethau statudol perthnasol. Datblygwyd a chymeradwywyd y Rheolau Sefydlog hyn gan Fwrdd S4C yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Fel egwyddor gyffredinol, ac yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol a'r Rheolau Sefydlog, mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C, gan gynnwys materion golygyddol a chomisiynu, a rheoli o ddydd i ddydd, i Brif Weithredwr S4C a'r Uwch Dîm Arwain. Mae Uwch Dîm Arwain S4C yn atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr, ac mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i lywio ac i oruchwylio cyfeiriad strategol y Sianel. Mae'r arfer hwn wedi bodoli ers 1982, ac mae'n parhau i gynnal a sicrhau annibyniaeth y Bwrdd rhag ymwneud gyda penderfyniadau gweithredol ynglŷn â chynnwys gwasanaethau S4C.

## Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C

1. <u>Statws S4C</u>

1.1. Mae S4C yn gorfforaeth a sefydlwyd gan statud. Mae ei threfniadau cyfansoddiadol presennol wedi'u nodi ym Mhennod VI Rhan I Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

2. <u>Safonau cyffredinol</u>

2.1. *Annibyniaeth S4C*

2.1.1. Rhaid i S4C fod yn annibynnol yn yr holl faterion yn ymwneud â chyflawni ei chylch gwaith a darparu ei gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau golygyddol a chreadigol, yr amserau a'r modd y cyflenwir ei hallbwn a'i gwasanaethau, ac wrth reoli ei busnes.

2.2. *Ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithredu er eu budd*

2.2.1. Rhaid i S4C weithredu er budd y cyhoedd.

2.2.2. Rhaid i S4C asesu barnau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaoedd yn unol â darpariaethau adran 64 Deddf Darlledu 1990.

2.2.3. Rhaid i S4C wneud trefniadau i sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau amrywiol y cyhoedd a chynulleidfaoedd yn cael eu hystyried yn ei phenderfyniadau.

2.2.4. Wrth gydymffurfio â'r Rheol hon, rhaid i S4C:

(i) sicrhau bod buddion (uniongyrchol neu anuniongyrchol) penderfyniadau yn ymwneud â chyflawni ei chylch gwaith yn cyfiawnhau'r costau (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol); ac
(ii) wrth wneud hynny, ystyried buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chostau.

2.3. *Agoredrwydd, tryloywder ac atebolrwydd*

2.3.1. Rhaid i S4C sicrhau safonau uchel o ran agoredrwydd a cheisio hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd i'r eithaf.

2.3.2. Rhaid i S4C sicrhau bod y canlynol yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd:

(i) crynodeb o drafodaethau cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd;
(ii) unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol ac yn gymesur i'w chyhoeddi er mwyn cydymffurfio â Rheol 2.3.1.

2.3.3. Wrth gydymffurfio â'r Rheol hon, nid yw'n ofynnol i S4C gyhoeddi gwybodaeth neu ddatgelu gwybodaeth mewn modd arall na fyddai'n ofynnol iddi ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

2.4. *Stiwardiaeth arian cyhoeddus*

2.4.1. Rhaid i S4C arfer stiwardiaeth drylwyr o arian cyhoeddus yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) Rheoleidd-dra: rhaid i'r rheolaeth ar holl adnoddau S4C gydymffurfio â'r darpariaethau statudol perthnasol, cyfarwyddiadau neu ganllawiau perthnasol gan Lywodraeth y DU, a gofynion archwilio perthnasol eraill;
(b) Priodoldeb: rhaid i'r rheolaeth ar holl adnoddau S4C fodloni safonau uchel ymddygiad cyhoeddus, a llywodraethiant gadarn;
(c) Gwerth am arian: rhaid i drefniadau caffael, prosiectau a phrosesau gael eu gwerthuso a'u hasesu'n systematig er mwyn rhoi hyder ynglŷn ag addasrwydd, effeithiolrwydd, doethineb, ansawdd, gwerth ac osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, gan ystyried budd ehangach y cyhoedd, nid budd S4C ei hun yn unig; a
(ch) Dichonoldeb: dylai cynigion sy'n defnyddio cyllid cyhoeddus gael eu gweithredu'n gywir, yn gynaliadwy ac yn unol â'r amserlen fwriadedig.

2.5. *Arweiniad ac Arfer Gorau*

2.5.1. Rhaid i S4C, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ystyried y cyfryw arweiniad cyffredinol yn ymwneud â rheoli materion cyrff cyhoeddus yr ystyria'n berthnasol, yn briodol a chymesur; gan gynnwys egwyddorion llywodraethiant corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer S4C fel corfforaeth statudol.

3. <u>Bwrdd S4C</u>

3.1. Bydd gan S4C un Bwrdd sydd, gan weithredu'n gyfunol, yn gyfrifol am arfer holl swyddogaethau S4C yn briodol, effeithiol ac annibynnol yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y darpariaethau statudol perthnasol.

3.2. Yn unol â Rheol 2.1, rhaid i bob aelod o'r Bwrdd gynnal a diogelu annibyniaeth S4C bob amser gan gynnwys drwy weithredu er budd y cyhoedd, arfer barn annibynnol ac adnabod pryd y mae'n briodol i i gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor neu gyfarwyddiadau gan Weinidogion Llywodraeth neu unrhyw berson arall.

3.3. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod S4C yn cyflawni ei chylch gwaith. Amlinellir prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn Atodlen A.

3.4. Rhaid i'r Bwrdd weithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethiant corfforaethol da. Amlinellir gweithdrefnau ar gyfer cyflawni gwaith y Bwrdd yn Atodlen B.

3.5. Unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd – trwy'r Ysgrifennydd – yn trefnu ac yn cynnal proses ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, pwyllgorau'r Bwrdd, a Bwrdd y Grŵp Masnachol. Rhaid cynnal y prosesau gwerthuso effeithiolrwydd hyn gan ymgynghorwyr allanol o leiaf unwaith bob tair blynedd, yn unol ag arfer da.

4. Pwyllgorau'r Bwrdd

4.1. Gall y Bwrdd sefydlu pwyllgorau o'r Bwrdd.

4.2. Bydd pwyllgorau'r Bwrdd yn cyflawni rôl graffu yn unol â chylch gorchwyl pob pwyllgor a sefydlwyd gan y Bwrdd.

4.3. Mae nifer, cylch gwaith, cylch gorchwyl a chyfansoddiad y cyfryw bwyllgorau yn ystyriaeth i'r Bwrdd, yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol o'r Rheol hon.

4.4. Bydd pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys Aelodau Anweithredol y Bwrdd, ac yn ôl doethineb y Bwrdd gall gynnwys y Prif Weithredwr a / neu aelodau gweithredol eraill o'r Bwrdd, neu unigolion eraill nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

4.5. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am yr holl benodiadau i bwyllgorau'r Bwrdd.

4.6. Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfodydd unrhyw un o bwyllgorau'r Bwrdd yn unol â'r hyn a amlinellir yng nghylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw.

4.7. *Y Pwyllgor Archwilio a Risg*

4.7.1. Rhaid bod Pwyllgor Archwilio a Risg bob amser, a rhaid i'w swyddogaethau fod yn gymesur â'r safonau llywodraethiant corfforaethol uchaf.

4.7.2. Rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ymhlith unrhyw ddyletswyddau eraill, fod yn gyfrifol am faterion archwilio a rheoli risg.

4.7.3. Ni ddylai fod gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg gyfrifoldeb gweithredol dros reoli S4C.

4.7.4. Ni ddylai Cadeirydd y Bwrdd fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

4.7.5. Rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Risg gynnwys o leiaf un aelod gyda phrofiad diweddar ym maes rheoli ariannol, ac yn ddymunol aelod â phrofiad ym maes rheoli risg.

5. Aelodaeth o'r Bwrdd

5.1. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn cael ei llywodraethu gan ddarpariaethau adrannau 56 a 56A ac Atodlen 6A Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

5.2. Rhaid i'r Bwrdd gynnwys nifer o aelodau anweithredol (yn cynnwys y Cadeirydd) a nifer o aelodau gweithredol.

5.3. Ni chaiff aelod o Fwrdd S4C ar unrhyw adeg fod yn aelod neu yn gyflogai o'r BBC neu Ofcom.

5.4. Ni chaiff aelod anweithredol neu'r Cadeirydd fod yn gyflogai o S4C.

5.5. Cyn penodi Cadeirydd neu aelod anweithredol i Fwrdd S4C, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes gan yr unigolyn unrhyw fuddiant ariannol nac unrhyw wrthdaro buddiannau arall a allai effeithio ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau. Rhaid hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu o bryd i'w gilydd a oes gan unrhyw aelod anweithredol presennol fuddiant o'r fath.

5.6. Rhaid i holl aelodau'r Bwrdd gydymffurfio gyda Chod Diwylliant a gwerthoedd S4C, yn ogystal â'r Cod Ymarfer ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

5.7. Yn ddarostyngedig i Reolau 5.9, 5.10, 5.11 a 5.12, bydd pob gweithred a wneir gan gyfarfod o'r Bwrdd, neu gan berson sy'n gweithredu fel aelod, er gwaethaf y ffaith y darganfyddir yn ddiweddarach fod diffyg ym mhenodiad unrhyw aelodau neu fod unrhyw un ohonynt wedi'i ddatgymhwyso rhag dal

swydd, wedi gadael swydd, neu nad oedd hawl ganddo i bleidleisio, yr un mor ddilys â phe bai wedi'i gwneud gan bobl gymwys a benodwyd yn briodol, sy'n parhau yn aelodau ac yn gymwys i bleidleisio.

5.8. Ni chaiff unrhyw aelod unigol benodi dirprwy i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd neu ymgymryd â dyletswyddau eraill fel aelod o'r Bwrdd ar ei ran.

5.9. *Cadeirydd y Bwrdd*

5.9.1. Penodir Cadeirydd y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Atodlen 6A Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

5.9.2. Disgwylir ond gwneud y penodiad yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

5.9.3. Pa bryd bynnag y bydd swydd y Cadeirydd yn wag, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd, benodi un o'r aelodau anweithredol fel 'Cadeirydd Dros Dro' gyda holl bwerau'r Cadeirydd hyd nes y penodir Cadeirydd newydd.

5.9.4. Bydd y Cadeirydd yn gweithredu yn unol â'r disgrifiad swyddogaeth, a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

5.10. *Aelodau Anweithredol y Bwrdd*

5.10.1. Rhaid i aelodau anweithredol y Bwrdd gael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Atodlen 6A Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

5.10.2. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi nid llai na phump na mwy nag wyth o aelodau anweithredol yn ychwanegol at y Cadeirydd. Disgwylir ond gwneud y penodiad yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

5.10.3. Bydd aelodau anweithredol y Bwrdd yn gweithredu yn unol â'r disgrifiad swyddogaeth, a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

5.11. *Aelod Annibynnol Arweiniol*

5.11.1. Rhaid i Fwrdd S4C benodi Aelod Annibynnol Arweiniol o blith yr Aelodau Anweithredol (ac eithrio'r Cadeirydd).

5.11.2. Pan fydd y swydd yn wag, bydd yr Ysgrifennydd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau Anweithredol cymwys sydd am gael eu hystyried ar gyfer y rôl.

5.11.3. Bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol yn cael ei benodi drwy bleidlais gan holl Aelodau'r Bwrdd, ar gyfer tymor na fydd yn hwy na thymor gwreiddiol yr aelod hwnnw ar y Bwrdd.

5.11.4. Bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol yn gweithredu yn unol â'r disgrifiad swyddogaeth a gytunwyd gan y Bwrdd, y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn ôl disgresiwn y Bwrdd.

5.12. *Aelodau Gweithredol y Bwrdd*

5.12.1. Rhaid i Fwrdd S4C gynnwys hyd at dri aelod gweithredol, a fydd yn unol â Rheol 5.10.2 yn cynnwys y Prif Weithredwr. Bydd aelodau anweithredol y Bwrdd yn penodi aelodau gweithredol i eistedd ar y Bwrdd yn unol â'r darpariaethau canlynol.

5.12.2. Rhaid i'r Prif Weithredwr gael ei benodi yn aelod gweithredol o'r Bwrdd.

5.12.3. Rhaid penodi o leiaf un, a hyd at ddau, aelod gweithredol pellach i'r Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd. Fodd bynnag, caiff yr aelodau anweithredol ond wneud penodiad sydd wedi'i gytuno gan y Prif Weithredwr.

5.12.4. At ddibenion y Rheol hon, mae'r rolau o gynnig a chymeradwyo gwneud penodiad yn ymwneud nid yn unig â'r person sydd i'w benodi ond hefyd â thelerau eu penodiad fel aelod gweithredol.

5.12.5. Bydd aelodau gweithredol y Bwrdd yn gweithredu yn unol â'r disgrifiad swyddogaeth a gytunwyd gan y Bwrdd, y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn ôl disgresiwn y Bwrdd.

5.13. *Treuliau Aelodau*

5.13.1. Bydd hawl gan aelodau o'r Bwrdd i dderbyn ad-daliad treuliau yr aed iddynt mewn cysylltiad â'u swydd neu'u dyletswyddau fel aelodau yn unol â pholisi treuliau'r Bwrdd ar unrhyw adeg benodedig.

5.14. *Gwerthuso Aelodau*

5.14.1. Unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda phob aelod arall yn unigol er mwyn gwerthuso perfformiad y person hwnnw fel aelod o'r Bwrdd.

5.14.2. Unwaith y flwyddyn, bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg neu Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd er mwyn gwerthuso ei berfformiad fel Cadeirydd. Fel rhan o'r gwerthusiad, bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol yn gwahodd adborth ar berfformiad y Cadeirydd gan weddill aelodau'r Bwrdd, yr Ysgrifennydd, ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain.

6. <u>Staff S4C</u>

6.1. Rhaid i S4C benodi staff er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a thrafod ei busnes yn effeithlon.

6.2. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod ganddo drefniadau addas ar waith bob amser er mwyn i'r Bwrdd (neu ei gynrychiolwyr), lle bo'n briodol, ymgynghori â staff S4C ar yr holl faterion sy'n effeithio ar fuddiannau'r staff hynny.

6.3. *Y Prif Weithredwr*

6.3.1. Penodir Prif Weithredwr gan y Bwrdd, o dan delerau yr ystyrir eu bod yn briodol gan y Bwrdd; a gall unrhyw unigolyn a benodir yn y modd hwn ond gael ei ddiswyddo (yn amodol ar hawliau cyflogaeth) gan y Bwrdd.

6.3.2. Rhaid i'r Prif Weithredwr fod yn brif olygydd S4C. Fel y cyfryw, gan y Prif Weithredwr fydd y cyfrifoldeb terfynol ac mae'n atebol i'r Bwrdd am benderfyniadau unigol ar faterion golygyddol yn ymwneud â chynnwys S4C.

6.3.3. Pan fydd swydd y Prif Weithredwr yn wag, bydd y Bwrdd yn gwahodd aelodau anweithredol y Pwyllgor Taliadau i ystyried a chynnig proses addas ar gyfer llenwi'r swydd, gan gynnwys llenwi'r swydd dros dro os bydd yn wag am gyfnod penodol. Wedi i aelodau'r Bwrdd gymeradwyo proses benodi, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor Taliadau yn arwain ar y broses (gan gynnwys cyfweld ag ymgeiswyr addas) er mwyn cytuno ar benodiad i'w argymell i'r Bwrdd ei gytuno'n ffurfiol.

6.3.4. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r Prif Weithredwr i werthuso ei berfformiad / pherfformiad fel Prif Weithredwr. Os yw'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn dymuno, bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn cynghori a chofnodi. Fel rhan o'r gwerthusiad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd adborth ar berfformiad y Prif Weithredwr gan weddill aelodau'r Bwrdd, yr Ysgrifennydd, ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain. Wedi trafod canlyniad y gwerthusiad gyda'r Prif Weithredwr, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r canlyniad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Taliadau.

6.4. *Yr Ysgrifennydd*

6.4.1. Rhaid i'r Bwrdd benodi Ysgrifennydd, yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Deddfau, penodir yr Ysgrifennydd o dan delerau yr ystyrir eu bod yn briodol gan y Bwrdd; a gall yr unigolyn a benodir yn y modd hwn ond gael ei ddiswyddo (yn amodol ar hawliau cyflogaeth) gan y Bwrdd.

6.4.2. Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd.

6.4.3. Pan fydd swydd yr Ysgrifennydd yn wag, bydd y Bwrdd yn gwahodd aelodau anweithredol y Pwyllgor Taliadau i ystyried a chynnig proses addas ar gyfer llenwi'r swydd, gan gynnwys llenwi'r swydd dros dro os bydd yn wag am gyfnod penodol. Wedi i aelodau'r Bwrdd gymeradwyo proses benodi, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor Taliadau yn arwain ar y broses (gan gynnwys cyfweld ag ymgeiswyr addas) er mwyn cytuno ar benodiad i'w argymell i'r Bwrdd ei gytuno'n ffurfiol.

6.4.4. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â’r Ysgrifennydd i werthuso ei berfformiad / pherfformiad fel Ysgrifennydd. Os yw’r Cadeirydd neu’r Ysgrifennydd yn dymuno, bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn cynghori a chofnodi. Fel rhan o’r gwerthusiad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd adborth ar berfformiad yr Ysgrifennydd gan weddill aelodau’r Bwrdd, ac aelodau’r Uwch Dîm Arwain. Wedi trafod canlyniad y gwerthusiad gyda’r Ysgrifennydd, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno’r canlyniad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Taliadau.

6.5. *Yr Uwch Dîm Arwain*

6.5.1. Bydd y Prif Weithredwr yn sefydlu Uwch Dîm Arwain, fydd yn gyfrifol gyda’r Prif Weithredwr am weithrediad S4C o ddydd i ddydd.

6.5.2. Y Pwyllgor Taliadau fydd yn gyfrifol ar ran y Bwrdd am gymeradwyo penodiadau i’r Uwch Dîm Arwain. Caiff aelodau, penodiadau, newidiadau i’r Uwch Dîm Arwain, a thelerau ac amodau aelodau unigol o’r Uwch Dîm Arwain eu cynnig i’r Pwyllgor Taliadau gan y Prif Weithredwr.

6.5.3. Rhaid cynnwys cynrychiolaeth o blith aelodau anweithredol y Bwrdd ar baneli i benodi i unrhyw swydd fydd yn aelod o’r Uwch Dîm Arwain. Penodir y cynrychiolydd gan Gadeirydd y Bwrdd, yn dilyn ymgynghori gyda gweddill aelodau anweithredol y Bwrdd.

7. <u>Gweithredu ar ran S4C</u>

7.1. Pan fydd unigolion yn gweithredu yn eu rhinwedd fel aelodau o’r Bwrdd, byddant yn gweithredu ar ran ac yn enw S4C.

7.2. Bydd aelodau Bwrdd S4C yn aelodau o’r corff corfforaethol, ond ni fydd aelodaeth o’r corff corfforaethol yn galluogi unrhyw unigolyn i weithredu mewn unrhyw ffordd arall ac eithrio drwy’r Bwrdd.

7.3. *Y Sêl*

7.3.1. Bydd y Bwrdd yn trefnu i sêl gael ei chadw gan yr Ysgrifennydd.

7.3.2. Dim ond drwy’r Bwrdd neu bwyllgor o’r Bwrdd a awdurdodwyd gan y Bwrdd y defnyddir y sêl. Caiff y Bwrdd neu’r cyfryw bwyllgor benderfynu pwy sydd i lofnodi unrhyw offeryn â’r sêl wedi’i gosod arno. Heb amharu ar y darpariaethau blaenorol, mae’r Bwrdd, drwy’r Rheol hon, yn awdurdodi Cadeirydd, Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr S4C ar unrhyw adeg benodol, yn gweithredu’n unigol, i lofnodi unrhyw offeryn y bydd y sêl wedi’i gosod arno, oni phenderfynir fel arall yn benodol.

7.4. *Dogfennau’n ymwneud ag S4C*

7.4.1. Ac eithrio pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, gall y Bwrdd weithredu yn ôl ei ddoethineb i dderbyn, awdurdodi neu gymeradwyo copi electronig neu unrhyw gopi arall a wnaed drwy beiriant o unrhyw gais, offeryn, awdurdodiad, contract, hysbysiad neu fath arall o ddogfen a roddwyd neu a gyflwynwyd i’r Bwrdd neu'r aelodau. Gall y Bwrdd weithredu yn ôl ei ddoethineb i dderbyn, awdurdodi neu gymeradwyo neges e-bost neu neges destun sydd yn atgynhyrchu cynnwys unrhyw gais, offeryn, awdurdodiad, contract, hysbysiad neu ddogfen o’r fath.

7.5. *Indemniad*

7.5.1. Caiff yr aelodau o’r Bwrdd a’r Ysgrifennydd ar unrhyw adeg benodedig sy'n gweithredu mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â’r Bwrdd a'i ysgutorion neu ei weinyddwyr perthnasol eu hindemnio, a'u cadw wedi’u hindemnio, rhag asedau’r Bwrdd, i’r graddau a ganiateir gan y gyfraith, rhag ac yn erbyn unrhyw rwymedigaeth sifil bersonol a ddaw i’w rhan wrth gyflawni neu honni cyflawni rolau’r Bwrdd, cyn belled â’u bod wedi gweithredu’n onest, yn rhesymol a didwyll a heb esgeulustod. Ymhellach, bydd y Bwrdd yn prynu a chynnal yswiriant ar draul y Bwrdd er budd unrhyw aelodau o’r Bwrdd neu’r Ysgrifennydd i’r graddau a ganiateir gan y gyfraith.

7.6. *Gweithredu dogfennau*

7.6.1. Dim ond unigolion sydd â'r awdurdod priodol a bennir gan y Bwrdd sy'n gallu weithredu dogfennau ar ran S4C. Gweler Atodlen C.

7.7. *Achosion cyfreithiol*

7.7.1. Os dechreuir achos cyfreithiol yn erbyn S4C, neu os oes angen dod ag achos cyfreithiol ar ran S4C, dylid derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i ddechrau, neu i setlo unrhyw achos o'r fath.. Gall Pennaeth Cyfreithiol S4C, neu unrhyw gyfreithiwr cymwysedig arall a awdurdodir ganddo gan gynnwys penodi cyfreithwyr allanol i weithredu ar ran y corff.

7.7.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i amddiffyn achos cyfreithiol a ddechreuir yn erbyn S4C, heblaw bod Pennaeth Cyfreithiol S4C o'r farn rhesymol fod y gymeradwyaeth honno yn rhesymol angenrheidiol o dan yr amgylchiadau Gall ffactorau perthnasol gynnwys (heb gyfyngiad) brys a / neu natur yr achos, a / neu'r risg i enw da S4C.

8. <u>Gweithgareddau Masnachol S4C</u>

8.1. Bydd y Bwrdd yn sefydlu Bwrdd y Grŵp Masnachol sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau masnachol S4C.

8.2. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am yr holl benodiadau fel Cyfarwyddwyr i'r is-gwmnïoedd masnachol.

8.3. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod o leiaf un aelod anweithredol o'r Bwrdd yn cael ei benodi i Fwrdd y Grŵp Masnachol.

8.4. Fel arfer, penodir Prif Weithredwr S4C i gadeirio Bwrdd y Grŵp Masnachol. Fodd bynnag, gall y Bwrdd ddewis penodi Cyfarwyddwr arall o Fwrdd y Grŵp Masnachol i weithredu fel ei gadeirydd.

8.5. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Masnachol fel arsylwr ar ran y Bwrdd.

8.6. Bydd Bwrdd y Grŵp Masnachol yn datblygu strategaeth hirdymor a chynllun busnes blynyddol ar gyfer y gweithgareddau masnachol, ac yn eu cyflwyno i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Rhaid i'r strategaeth a'r cynllun busnes ar gyfer y gweithgareddau masnachol cyd-fynd â gwerthoedd S4C, a'r strategaeth gorfforaethol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd ar gyfer Grŵp S4C.

8.7. Bydd unrhyw fuddsoddiadau sy'n uwch na'r trothwy ariannol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol y Bwrdd, a gall y Bwrdd adolygu'r trothwy hwn o bryd i'w gilydd yn ôl ei ddisgresiwn.

8.8. Bydd Bwrdd y Grŵp Masnachol yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd, gan gynnwys dadansoddiad ariannol, risgiau strategol, a phwysigrwydd masnachol penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod.

8.9. Bydd Bwrdd y Grŵp Masnachol yn cyflwyno cyfrifon diwedd blwyddyn ac adroddiadau strategol blynyddol o weithgareddau'r holl is-gwmnïau masnachol (gan gynnwys unrhyw ymgymeriadau a chyd-fentrau S4C) i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

9. <u>Cyfrifon ac Archwilio</u>

9.1. Rhaid i S4C gadw cofnodion cyfrifo digonol yn unol â gofynion Llywodraeth y DU, a chyfarwyddiadau a gofynion cyfrifo perthnasol eraill.

9.2. Yn unol ag Atodlen 6, Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), bydd archwilwyr allanol grŵp S4C yn archwilio, ardystio ac yn adrodd ar gyfrifon y grŵp a baratowyd gan S4C mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad gynnwys barn ar reoleidd-dra ar gyfrifon y grŵp a rhaid eu cyfeirio at aelodau'r Bwrdd mewn modd sy'n cydnabod bod Senedd y DU hefyd yn dibynnu ar gyfrifon ac adroddiad y grŵp.

9.3. Rhaid i S4C anfon copi o adroddiad yr archwilydd at yr Ysgrifennydd Gwladol.

10. <u>Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol</u>

10.1. Rhaid i S4C baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiad ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol.

10.2. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gydymffurfio â gofynion Llywodraeth y DU, a Chod Llywodraethiant Corfforaethol y DU i'r graddau eu bod yn berthnasol i gorfforaeth statudol.

10.3. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol i Senedd y DU. Pan fydd hyn wedi'i wneud, rhaid i S4C gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol.

10.4. Rhaid i S4C gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol i Senedd Cymru ar yr un diwrnod, neu mor fuan ag y bo modd ar ôl i'r dogfennau hynny gael eu cyflwyno i Senedd y DU.

11. <u>Datganiad o Bolisi Rhaglenni</u>

11.1. Rhaid i S4C baratoi a chyhoeddi Datganiad o Bolisi Rhaglenni yn flynyddol, ac adolygiad blynyddol o bob datganiad ar gyfer pob blwyddyn yn unol â'r Rheol hon a'r darpariaethau statudol perthnasol.

11.2. Rhaid i S4C gyhoeddi'r Datganiad o Bolisi Rhaglenni blynyddol cyn cyfnod y flwyddyn berthnasol.

12. <u>Rheoleiddio gwasanaethau S4C</u>

12.1. Swyddogaeth Ofcom, yn unol ag adran 203 Deddf Cyfathrebiadau 2003, yw rheoleiddio gwasanaethau teledu a rhaglenni ar-alw S4C.

12.2. Rhaid i'r Bwrdd sefydlu fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion a datrys cwynion er mwyn darparu dulliau tryloyw, hygyrch, effeithiol, amserol a chymesur o sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau a bod rhwymedïau'n cael eu darparu sy'n gymesur ac yn gysylltiedig ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio honedig.

13. <u>Y Rheolau Sefydlog</u>

13.1. Mae'r Rheolau hyn yn ategu'r Deddfau ac ni fwriedir iddynt eu disodli na chyfyngu neu amharu arnynt.

13.2. Pe bai anghysondeb rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o'r Rheolau Sefydlog hyn, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael blaenoriaeth.

13.3. Gall y Bwrdd newid y Rheolau Sefydlog hyn trwy benderfyniad y Bwrdd o dro i dro.

13.4. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog hyn o leiaf unwaith bob 5 mlynedd.

13.5. *Diffiniadau a dehongliad*

13.5.1. O dan y Rheolau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Ystyr "Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol" yw'r adroddiad blynyddol a'r datganiad o gyfrifon ar gyfer gweithgareddau S4C bob blwyddyn fel y'u diffinnir yn Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Ystyr "aelod" yw aelod gweithredol neu anweithredol a benodwyd i wasanaethu ar Fwrdd S4C.

Ystyr "aelod gweithredol" yw aelodau o staff S4C a benodwyd yn unol â Rheol 8 i wasanaethu fel aelodau o'r Bwrdd.

Ystyr "aelod anweithredol" yw aelod o Fwrdd S4C a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Atodlen 6A Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), gan gynnwys y Cadeirydd, ond nid yw'n cynnwys aelodau gweithredol.

Ystyr "Bwrdd" yw bwrdd y gorfforaeth statudol a adwaenir fel S4C fel y diffinnir yn adran 56A Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Ystyr "Bwrdd y Grŵp Masnachol" yw bwrdd cyfarwyddwyr y cwmni neu gwmnïau sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau masnachol S4C.

Ystyr "Cadeirydd" yw cadeirydd y Bwrdd ar unrhyw adeg benodedig a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Ystyr "Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer ar gyfer aelodau'r Bwrdd a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ar unrhyw adeg benodedig.

Ystyr "Deddfau" yw Deddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, Deddf Cyfathrebiadau 2003, a Deddf Cyfryngau 2024 (lle maent yn berthnasol i S4C).
Ystyr "Prif Weithredwr" yw Prif Weithredwr S4C ar unrhyw adeg benodedig.

Ystyr "Rheolau" yw'r Rheolau Sefydlog hyn, fel y'u diwygiwyd ar unrhyw adeg benodedig.

Ystyr "Ysgrifennydd" yw Ysgrifennydd S4C ar unrhyw adeg benodedig.

Ystyr "Ysgrifennydd Gwladol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

13.5.2. Bydd unrhyw gyfeiriad at Statud yn cynnwys unrhyw addasiad statudol iddi neu ailddeddfiad ohoni sydd mewn grym ar unrhyw adeg benodedig.

13.5.3. Onid yw'n ymddangos nad hyn yw'r bwriad, caiff ymadroddion sy'n cyfeirio at destun neu ddogfen eu dehongli i gynnwys cyfeiriadau at unrhyw ddull o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weledol trwy unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau, boed yn electronig neu fel arall a (heb gyfyngu ar natur gyffredinol yr uchod) bydd yn cynnwys negeseuon e-bost, argraffu, lithograffeg a ffotograffiaeth.

13.5.4. Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd a ddiffiniwyd yn y Rheolau hyn yr un ystyr os yw'n ymddangos wedi'i dreiglo mewn man arall yn y Rheolau.

13.5.5. Bydd geiriau ac ymadroddion sy'n golygu'r unigol yn unig yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb hefyd, a bydd ymadroddion sy'n cyfeirio at un genedl yn cynnwys unrhyw genedl arall hefyd.

13.5.6. Bydd unrhyw gyfeiriad at berson yn "llofnodi" unrhyw gontract, gweithred, offeryn neu ddogfen o unrhyw fath yn cynnwys llofnodi, selio neu ddefnydd o unrhyw ddull priodol arall sydd ar gael i'r person hwnnw er mwyn rwymo'i hun i unrhyw gontract, gweithred, offeryn neu ddogfen o'r fath, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

**ATODLEN A: CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD**

Mae'r Atodlen hon yn amlinellu prif gyfrifoldebau'r Bwrdd, y materion y mae'r Bwrdd wedi neilltuo iddo'i hun, a threfniadau dirprwyo.

A1. Egwyddorion Cyffredinol

A1.1. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon o S4C a'i holl weithgareddau, gan gynnwys ei his-gwmnïau masnachol drwy, yn benodol:

(a) benodi rheolwyr S4C, a'u dwyn i gyfrif;
(b) sicrhau bod strwythur trefniadol S4C a sgiliau staff S4C yn addas i'r diben; a
(c) phennu'r telerau ac amodau cyffredinol ar gyfer staff S4C ac adolygu'r rhain yn rheolaidd.

A1.2. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon ar gyllid S4C drwy, yn benodol, roi polisïau a rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod incwm cyhoeddus a masnachol S4C yn cael ei wario a bod gweithrediadau S4C yn cael eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn unol â rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a dichonoldeb.

A1.3. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y darpariaethau statudol a rheoleiddio a'r gyfraith gyffredinol, drwy, yn benodol, gydymffurfio ag unrhyw geisiadau neu benderfyniadau a wneir gan Ofcom.

A1.4. Gall y Bwrdd benodi, neu drefnu cael cymorth, pwyllgorau ymgynghorol er mwyn cael cyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â rolau'r Bwrdd yn unol â phenderfyniad y Bwrdd.

A2. Trefniadau Dirprwyo

A2.1. Caiff y Bwrdd ddirprwyo unrhyw un o'i bwerau (gyda phwerau i is-ddirprwyo) i unrhyw bwyllgor sy'n cynnwys unrhyw berson neu bersonau (p'un a ydynt yn aelodau o'r Bwrdd neu beidio) fel y gwêl yn dda, neu i unrhyw un neu fwy o'i aelodau neu aelodau o staff S4C. Serch hynny, bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol yn y pen draw am unrhyw benderfyniadau neu gamau a gymerir o dan y pwerau a ddirprwywyd, a ble y cyflwynir unrhyw her o'r penderfyniadau hynny.

A2.2. Bydd unrhyw ddirprwyo pwerau yn unol â Rheol A2.1 o dan gyfarwyddyd cyffredinol y Bwrdd a gall fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r Bwrdd am eu gosod, a gellir eu diddymu neu eu newid. Yn amodol ar unrhyw amodau o'r fath, bydd gweithdrefnau pwyllgorau â dau neu fwy o aelodau o'r Bwrdd yn cael eu llywodraethu gan y Rheolau sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r Bwrdd i'r graddau y gallant fod yn gymwys.

A2.3. Heb gyfyngu ar ddarpariaethau cyffredinol Rheol A2.1, ac i'r graddau y caniateir hynny gan y Deddfau, bydd y Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr yn amodol ar faterion sydd wedi eu neilltuo gan y Bwrdd iddo'i hun, ar yr amodau, ac o fewn y canllawiau, a fydd wedi eu nodi yn Rheol A3 sydd i'w chymeradwyo gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

A3. Materion mae'r Bwrdd wedi neilltuo iddo'i hun

A3.1. Mae'r Rheol hon yn nodi'r materion strategol, y swyddogaethau a'r penderfyniadau y mae Bwrdd S4C yn neilltuo iddo'i hun a'i bwyllgorau.

A3.2. Caiff y Bwrdd trwy bleidlais ehangu, diddymu, diwygio a, neu ddiweddaru Rheol hon o bryd i'w gilydd yn ôl ei ddoethineb.

A3.3. Mae'r Bwrdd wedi nodi isod rhai materion sydd naill ai'n swyddogaethau y mae angen eu cyflawni'n uniongyrchol gan y Bwrdd, neu'n swyddogaethau y mae angen cymeradwyaeth ffurfiol y Bwrdd ar eu cyfer. Mae'r materion a restrir yn ddarostyngedig i'r darpariaethau statudol perthnasol, Rheolau Sefydlog y Bwrdd a chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd.

A3.3.1. *Strategaeth S4C a Rheoli Perfformiad*
- Cyfrannu at ddatblygu, a chymeradwyo, strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer S4C a'r cynllun busnes hirdymor cysylltiedig.
- Sefydlu a monitro strwythur ar gyfer mesur ac asesu perfformiad strategol gwasanaethau S4C, gan gynnwys, lle bo'n briodol, pennu targedau yn ymwneud â darpariaethau llywodraethiant corfforaethol.

- Sicrhau bod strwythurau a phrosesau llywodraethiant corfforaethol priodol wedi'u cymeradwyo a'u gweithredu ar gyfer holl weithgareddau Bwrdd S4C.

A3.3.2. *Materion Masnachol*

- Sicrhau unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer cyflawni gweithgareddau masnachol S4C.
- Cyfrannu at ddatblygu, a chymeradwyo, strategaeth a blaenoriaethau masnachol S4C.
- Sicrhau bod gweithgareddau masnachol S4C yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol S4C, gan gynnwys gweithredu o fewn pwerau cyfreithiol Bwrdd S4C.

A3.3.3. Stiwardiaeth

- Cynnal asesiad blynyddol o brosesau rheoli ariannol, archwaeth a rheoli risg, a rheolaeth fewnol S4C.
- Cymhwyso cronfeydd ariannol.
- Paratoi a chyflwyno unrhyw adroddiad sicrwydd i Fwrdd y BBC o dan ddarpariaethau Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd (Tachwedd 2017).

A3.3.4. Barn y gynulleidfa, a Chwynion

- Sicrhau cyfleoedd priodol i'r gynulleidfa gyflwyno'u barn am wasanaethau S4C i'r Bwrdd.
- Sicrhau bod proses gwynion berthnasol yn cael ei gweithredu gan S4C a Phanel Cwynion y Bwrdd.

A3.3.5. Cydweithio â sefydliadau eraill

- Sicrhau bod S4C yn gweithredu fel sefydliad cenedlaethol sy'n cydweithio ac yn partneru â sefydliadau cenedlaethol a lleol er mwyn creu partneriaethau creadigol newydd.

A3.3.6. Polisïau

- Cymeradwyo a monitro'r polisïau canlynol:
    - Canllawiau Iaith Cynnwys S4C;
    - Cynllun a Safonau Iaith Statudol;
    - Newidiadau i delerau cyflogaeth safonol S4C;
    - Iechyd a Diogelwch;
    - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan gynnwys y ddyletswydd i osgoi Aflonyddu Rhywiol yn y gweithle;
    - Chwythu'r Chwiban / Datgelu;
    - Caethwasiaeth Fodern;
    - Trefniadau Gwrth Lwgrwobrwyo;
    - Amddiffyn plant a phobl bregus;
    - Cynaliadwyedd Amgylcheddol; a
    - Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

A3.3.7. Penodiadau a Thâl

- Penodi Prif Weithredwr, ac Ysgrifennydd, a rheoli eu perfformiad.
- Pennu cyflog y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd, a'r Uwch Dîm Arwain.

A3.3.8. Materion Eraill

- Cymeradwyo cylch gorchwyl ac aelodaeth holl bwyllgorau'r Bwrdd.
- Erlyn neu setlo ymgyfreitha perthnasol ar ran S4C.
- Ymateb i unrhyw ymchwiliad i weithgareddau S4C gan unrhyw gorff rheoleiddio cymwys.

A4. <u>Materion Eraill</u>

A4.1. Mewn maes lle mae newid yn nodwedd gyson, ac mewn corff sy'n derbyn arian cyhoeddus ond sy'n annibynnol ar ddylanwad neu ymyrraeth wleidyddol, a chorff sydd hefyd yn berchen ar is-gwmnïau masnachol, gellir disgwyl y bydd materion yn codi lle nad yw'n amlwg p'un a ydynt yn dod o fewn diffiniad 'materion wedi eu neilltuo' ai peidio. Pan fydd materion fel hyn yn codi, rhaid i swyddogion ystyried yn ofalus faterion sydd angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd cyn gweithredu arnynt. Dylai'r Prif Weithredwr ddarparu arweiniad i'r Uwch Dîm Arwain yn y cyd-destun hwn, a dylai'r Uwch Dîm Arwain hefyd ddarparu arweiniad i swyddogion eraill. Mae aelodaeth yr Ysgrifennydd o'r Uwch Dîm Arwain, a'i gyngor o ran adnabod materion perthnasol yn allweddol, felly hefyd y berthynas a'r trafodaethau rheolaidd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

A4.2. Mae gan y Cadeirydd rôl allweddol wrth gynghori'r Prif Weithredwr ar faterion sy'n mynnu sylw'r Bwrdd, pryd i'w cyflwyno a pha wybodaeth sy'n briodol. Dylai hefyd gadw mewn cysylltiad â'r aelodau anweithredol i ragweld cwestiynau y gallai'r Bwrdd ofyn. Drwy weithredu fel hyn, bydd y Prif Weithredwr yn teimlo rhyddid i fynd at y Cadeirydd i gael arweiniad ynglŷn â materion a all fod yn

ddadleuol, tra bydd gan aelodau eraill y Bwrdd yr hyder y bydd y Cadeirydd bob amser yn ymwybodol mai gan y Bwrdd cyfan y mae'r hawl i wneud penderfyniadau ar faterion pellgyrhaeddol a dadleuol.

**ATODLEN B: GWEITHDREFNAU'R BWRDD**

Mae'r Atodlen hon yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni gwaith y Bwrdd, yn unol â'i gyfrifoldebau.

Disgwylir hefyd i gyfarfodydd unrhyw bwyllgorau o'r Bwrdd gydymffurfio gyda'r gweithdrefnau hyn i'r graddau sy'n bosib.

B1. Yn ddarostyngedig i'r Deddfau a'r Rheolau Sefydlog, caiff yr aelodau gyfarfod fel Bwrdd er mwyn ymdrin â busnes S4C a gohirio a rheoli eu cyfarfodydd fel arall fel y gwelant yn dda.

B2. Bydd y Bwrdd fel arfer yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydymffurfio ag unrhyw Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i S4C.

B3. <u>Galw Cyfarfodydd</u>

B3.1. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Caiff cyfarfodydd eu galw gan:

(a) yr Ysgrifennydd; neu
(b) yr Ysgrifennydd ar gais ac ar ran y Cadeirydd; neu
(c) yr Ysgrifennydd ar gais ac ar ran unrhyw ddau aelod o'r Bwrdd.

B3.2. Hysbysir pob aelod o bob cyfarfod o'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd. Fel arfer, cylchredir yr hysbysiad trwy ddulliau electronig, ynghyd â'r agenda a'r papurau cefnogol, dim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

B3.3. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen penderfyniadau brys, gall y Cadeirydd awdurdodi galw Cyfarfod Arbennig gyda chyfnod hysbysu byrrach. Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfodydd o'r fath yn cael ei gyfyngu i'r busnes brys penodol.

B3.4. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir neu gamau a gymerwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd yn ddilys hyd yn oed os methwyd trwy ddamwain â rhoi hysbysiad o'r cyfarfod i unrhyw berson cymwys, neu os na dderbyniodd yr hysbysiad.

B4. <u>Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd</u>

B4.1. Cadeirir pob cyfarfod o'r Bwrdd gan y Cadeirydd, a gall y Cadeirydd ddod â chyfarfod i ben yn ôl yr angen. Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd neu os nad oes Cadeirydd wedi'i benodi ar y pryd, caiff y cyfarfod ei gadeirio gan unrhyw aelod anweithredol a benodir drwy bleidlais gan yr aelodau o'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfarfod o hwnnw, yn unol â darpariaethau Rheol B7 (isod).

B4.2. Bydd yr Ysgrifennydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd fel arfer (oni bai bod y Bwrdd yn penderfynu fel arall yn sgil gwrthdaro buddiannau gan yr Ysgrifennydd) a gall y Bwrdd, ar gais yr Ysgrifennydd, ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fod yn bresennol am ran neu'r cyfan o unrhyw gyfarfod, ond ni fydd gan unrhyw bersonau heblaw aelodau o'r Bwrdd yr hawl i bleidleisio.

B4.3. Gall unrhyw aelod neu bob aelod gymryd rhan mewn cyfarfod o'r Bwrdd drwy gyfrwng ffôn neu fideo gynadledda, neu drwy ddefnyddio unrhyw offer cyfathrebu arall sy'n galluogi pawb sydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod i glywed ei gilydd. Bernir bod unrhyw aelod sy'n cymryd rhan yn y modd hwn yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod a bydd ganddo hawl i bleidleisio a chael ei gyfrif fel rhan o gworwm felly. Bernir bod cyfarfod o'r fath yn digwydd lle bydd y grŵp mwyaf o'r rheiny sy'n cymryd rhan wedi'i gynnull, neu, os nad oes unrhyw grŵp o'r fath, yn y fan y bydd Cadeirydd y cyfarfod ar y pryd.

B5. <u>Rheoli'r Agenda</u>

B5.1. Bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei pharatoi gan yr Ysgrifennydd ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Gall aelodau'r Bwrdd gynnig eitemau sylweddol i'w cynnwys ar yr agenda drwy gyflwyno ceisiadau i'r Ysgrifennydd ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

B6. Cworwm

B6.1. Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o’r Bwrdd fydd pedwar aelod o’r Bwrdd, a fydd yn cynnwys o leiaf dri aelod anweithredol ac un aelod gweithredol o’r Bwrdd.

B6.2. Os na fydd cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr ar ôl amser dechrau unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd, neu os yw’r Cadeirydd yn cyfrif nifer yr aelodau sy’n bresennol yn ystod unrhyw gyfarfod ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, caiff y cyfarfod ei ohirio. Caiff y busnes sy’n weddill ei drafod ar adeg a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os na chaiff dyddiad ei bennu, caiff y busnes sy’n weddill ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

B6.3. Lle ar unrhyw adeg benodol y mae nifer yr aelodau anweithredol a benodwyd i’r Bwrdd yn llai na’r cworwm penodedig, gall yr aelodau anweithredol sy’n weddill, neu’r unig aelod~~au~~ anweithredol sy’n weddill, barhau i weithredu busnes y Bwrdd, ac yn yr amgylchiadau hynny byddai lleiafswm o hanner yr aelodau anweithredol sy’n weddill yn gyfystyr â chworwm dilys.

B7. Pleidleisio

B7.1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r Deddfau a’r Rheolau Sefydlog, os caiff mater sy'n codi mewn cyfarfod o’r Bwrdd ei roi i bleidlais, penderfynir ar y mater hwnnw drwy fwyafrif syml o’r pleidleisiau a fwriwyd gan yr aelodau hynny o’r Bwrdd sy'n bresennol ac sy'n gymwys i bleidleisio. Bydd gan bob aelod o’r Bwrdd un bleidlais, oni bai ei fod wedi ei wahardd rhag pleidleisio o dan yn sgil gwrthdaro buddiannau. Yn achos pleidlais gyfartal, mae gan gadeirydd y cyfarfod hawl i gael pleidlais fwrw, yn ychwanegol at unrhyw bleidlais arall a all fod ganddynt.

B8. Dirprwyaethau

B8.1. Rhaid i unrhyw ddirprwyaethau sy’n dymuno cwrdd â’r Bwrdd gyflwyno cais ysgrifenedig i’r Cadeirydd, trwy’r Ysgrifennydd. Os yw'r Cadeirydd a’r Aelod Annibynnol Arweiniol o'r farn y dylid derbyn dirprwyaeth ar y mater hwnnw, gwahoddir y ddirprwyaeth i fod yn bresennol.

B8.2. Ni fydd mwy na thri unigolyn mewn dirprwyaeth ac, oni cheir cytundeb gan y Cadeirydd, un unigolyn o’r ddirprwyaeth caiff annerch y Bwrdd (ac eithrio mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd).

B8.3. Ni fydd y mater a gyflwynir gan y ddirprwyaeth yn cael ei ystyried gan y Bwrdd tan ar ôl i'r ddirprwyaeth ymadael.

B9. Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd

B9.1. Yn ddarostyngedig i Reol B7, bydd penderfyniad a lofnodwyd neu a gymeradwywyd ar ffurf ysgrifenedig gan fwyafrif o’r aelodau hynny sydd â hawl i dderbyn hysbysiad ynghylch cyfarfod o’r Bwrdd, ac â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad hwnnw, yr un mor ddilys ac effeithiol â’r penderfyniadau hynny a basiwyd mewn cyfarfodydd o’r Bwrdd. Gall gynnwys nifer o ddogfennau a’r cyfan ohonynt wedi'u llofnodi neu’u cymeradwyo gan un neu fwy o bobl.

B9.2. Rhaid adrodd unrhyw benderfyniadau a gymerir rhwng cyfarfodydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

B10. Gwrthdaro buddiannau

B10.1. Rhaid i unrhyw aelodau â camau positif i geisio adnabod a datgan y potensial am unrhyw fuddiant uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganfyddedig mewn unrhyw fater a godir i’w drafod mewn cyfarfod o’r Bwrdd. Cyn i’r drafodaeth fynd rhagblaen, dylai’r aelod ddatgan y potensial am wrthdaro buddiant wrth y Cadeirydd, (neu yn achos y Cadeirydd ei hun, wrth o leiaf dau aelod arall o’r Bwrdd) a . lle gwneir unrhyw ddatganiad o’r fath:

(a) caiff y datganiad ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod; a
(b) Caiff y Cadeirydd (neu yn achos y Cadeirydd ei hun panel o ddau aelod arall o’r Bwrdd) benderfynu a yw’r potential am wrthdaro buddiannau yn golygu na ddylai’r aelod gymryd rhan yn y drafodaeth, ac os felly (yn ddarostyngedig i Reol B7) ni chaiff yr aelod gymryd rhan na bod yn bresennol mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad o’r Bwrdd yn ymwneud â’r mater hwnnw.

B10.3. Os yw aelod neu aelodau eraill o'r Bwrdd yn anhapus gyda phenderfyniad y Cadeirydd (neu banel o ddau yn achos y Cadeirydd) dylent godi eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r Aelod Annibynnol Arweiniol, a dylid oedi'r drafodaeth rhag cymryd lle nes bydd penderfyniad terfynol yr Aelod Annibynnol Arweiniol wedi cael ei ddatgan. Os mai'r Aelod Annibynnol Arweiniol sydd a'r potensial am wrthdaro buddiannau, bydd barn y Cadeirydd yn derfynol yn ei gylch.

B10.4. At ddibenion Rheol B10.1, ymdrinnir â chyhoeddiad cyffredinol a wneir mewn cyfarfod o'r Bwrdd i'r perwyl bod aelod yn aelod o gwmni neu fenter benodol ac y dylid ei ystyried yn berson â buddiant mewn unrhyw fater yn ymwneud â'r cwmni neu'r fenter honno fel datganiad digonol o fuddiant mewn unrhyw fater o'r fath.

B10.5. Ni fydd yn ofynnol i aelod fynychu cyfarfod o'r Bwrdd yn bersonol er mwyn datgan buddiant yn unol â Rheol B10.1 os yw'n cymryd camau rhesymol i sicrhau y gwneir y datganiad drwy hysbysiad sy'n cael ei ystyried a'i ddarllen yn uchel yn y cyfarfod.

B11. <u>Cyfrinachedd</u>

B11.1. Mae trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd yn gyfrinachol oni bai bod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd, yn penderfynu fel arall. Ni ddylid datgelu safbwyntiau unigol na manylion pleidleisio y tu allan i'r cyfarfod. Bydd y cofnodion swyddogol, unwaith y'u cymeradwyir, yn cynrychioli'r cofnod cytunedig o benderfyniadau a thrafodaethau.

B12. <u>Cofnodion</u>

B12.1. Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu cadw cofnodion o'r holl drafodion mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd, gan gynnwys enwau pawb sy'n bresennol ymhob cyfarfod o'r fath. Bydd y cofnodion yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd.

B12.2 Bydd S4C yn cyhoeddi ar ei gwefan grynodeb (sy'n eithrio gwybodaeth gyfrinachol) o gofnodion y Bwrdd, wedi i'r cofnodion llawn gael eu cymeradwyo.

**ATODLEN C: GWEITHREDU AR RAN S4C – HAWLIAU LLOFNODI AC ACHOSION CYFREITHIOL**

Mae'r atodlen hon yn egluro'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu dogfennau ar ran S4C, yn ogystal â'r dull o sefydlu neu setlo achosion cyfreithiol yn enw'r corff.

C1. <u>Gweithredu Dogfennau</u>

C1.1 Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo fframwaith dirprwyo ariannol, ac yn adolygu ac yn diwygio'r fframwaith hwnnw o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

C1.2. Gellir llofnodi dogfennau gan unrhyw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i ymrwymo i wariant ar ran S4C, ar yr amod bod y mater:

- yn disgyn o fewn ei awdurdod ariannol penodedig; a / neu
- yn ymwneud â'i faes cyfrifoldeb uniongyrchol.

C1.3. Bydd unrhyw faterion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Bwrdd cyn y gellir gweithredu arnynt.

C1.4. Rhaid i unrhyw weithredu o dan yr uchod gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau, cyfyngiadau neu gymeradwyaethau ychwanegol a bennir gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

C2. <u>Achosion Cyfreithiol</u>

C2.1. *Swyddogaeth y Bwrdd*

C2.1.1. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gychwyn neu setlo achosion cyfreithiol ar ran S4C.

C2.2. *Gweithdrefnau*

C2.2.1. Dim ond gyda chymeradwyaeth briodol y Bwrdd y gellir cychwyn neu setlo achos cyfreithiol ar ran S4C. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i amddiffyn achos cyfreithiol a ddechreuir yn erbyn S4C, heblaw bod Pennaeth Cyfreithiol S4C o'r farn rhesymol fod y gymeradwyaeth honno yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau. Gall ffactorau perthnasol gynnwys (heb gyfyngiad) brys, a/neu natur yr achos, a/neu'r risg i enw da S4C. Rhaid hysbysu'r Cadeirydd yn brydlon am unrhyw achos o'r fath lle nad yw cymeradwyaeth ymlaen llaw wedi'i cheisio ac y gall fod goblygiadau i enw da S4C.

C2.2.2. Gall Pennaeth Cyfreithiol S4C, neu unrhyw gyfreithiwr cymwysedig arall a awdurdodir ganddo, weithredu ar ran S4C wrth gychwyn, amddiffyn, neu setlo unrhyw achos cyfreithiol, gan gynnwys penodi cyfreithwyr allanol i weithredu ar ran y corff.

C3. <u>Diwygiadau a Monitro</u>

C3.1. Bydd y darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau neu benderfyniadau ychwanegol gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

C3.2. Bydd yr atodlen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu anghenion gweithredol S4C.